
# Harbwr Diogel 9

# Calm Waters 9



## Gwybodaeth

## Information

www.ceredigion.gov.uk

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Caru·Love Ceredigion

# Harbwr Diogel 9

**Mae harbyrau Cyngor Sir Ceredigion yn Aberaeron, Aberystwyth a Chei Newydd yn atyniadau ac adnoddau gwych o'u rhan eu hunain. Er mwyn gwneud yn siŵr bod pethau'n dawel yn yr harbyrau a'u bod yn parhau'n ddiogel, deniadol a dymunol i bawb rydym yn atgoffa defnyddwyr o rai pethau allweddol y mae angen iddynt fod yn ymwybodol ohonynt, a'u bod yn eu gweithredu.**



## Cofiwch:

1. Fod yn ystyriol a pharchus bob amser o holl ddefnyddwyr eraill yr harbyrau a'r cyhoedd.
2. Bod yn ystyriol a pharchus bob amser o fywyd gwyllt lleol, a'i werthfawrogi.
3. Gwneud yn siŵr bod eich cyfarpar yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, ei fod mewn cyflwr da ac yn addas i'r diben. Mae hyn yn cynnwys offer angori, cadwyni, rhaffau, angorau a dyfeisiau angori eraill. Dylech wirio'r rhain i gyd yn rheolaidd.
4. Ymdrin â'ch holl wastraff yn gyfrifol a chyfreithlon. Mae hyn yn cynnwys ac yn rhychwantu offer pysgota wedi'i ddefnyddio ac olew gwastraff.
5. Storio'r holl gyfarpar yn ddiogel ac mewn man priodol. Mae hyn yn cynnwys cychod tendio, bwiau, potiau a chyfarpar pysgota arall.
6. Peidio ag achosi rhwystr neu niwsans naill ai ar ochr sych neu wlyb yr harbyrau. Mewn argyfwng, gallai mynediad clir fod yn hanfodol. Dylech barcio ceir yn unol â threfniadau'r lle a'r ddarpariaeth sydd yno.
7. Ymateb yn gadarnhaol i gyngor neu gyfarwyddyd a roddir gan unrhyw un o staff yr Harbyrau.
8. Codi unrhyw fater, pryder neu awgrym a all fod gennych gyda staff yr Harbyrau ar y cyfle cyntaf. Mae hyn yn cynnwys adrodd ar unrhyw ddiffyg neu ddifrod y gallwch ddod yn ymwybodol ohono yn yr harbyrau.
9. Cysylltu â **999** mewn unrhyw fath o argyfwng.

**Rheolir yr Harbyrau yn unol â Pholisi Rheoli Harbyrau Ceredigion.**

- Polisi Rheoli Harbyrau Ceredigion,
- Is-ddeddfau,
- Cyrsiau a Phellteroedd Morol,
- Tablau Llanw Lleol,
- Arfordir Treftadaeth Forol Ceredigion, Ardal Cadwraeth Arbennig Bae Ceredigion ac Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau,
- Anifeiliaid Morol yn Sownd ar Lan y Môr, a
- Diogelwch

  Gellir cael gwybodaeth am yr uchod i gyd yma: https://www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/teithio-ffyrdd-a-pharcio/harbyrau/

**Dylai Defnyddwyr Harbyrau ymgyfarwyddo â'r wybodaeth hon i gyd a gwneud yn siŵr eu bod yn ymddwyn yn unol â hynny bob amser. Mae'r dogfennau hyn yn cael eu diweddaru'n rheolaidd felly dylid eu gwirio'n gyson.**

## Y newyddion diweddaraf:

### (1) Y diweddaraf am Dîm Gwasanaeth yr Harbyrau

Yn dilyn ymadawiad Chay Sanders o Dîm Gwasanaeth yr Harbyrau, penodwyd Robyn Beresford i rôl Arweinydd Gwaith Harbwr. Dechreuodd Robyn y rôl ym mis Ebrill 2025 ond roedd hi eisoes yn wyneb cyfarwydd i ddefnyddwyr yr Harbyrau gan ei bod hi, cyn hyn, yn un o Gynorthwywyr Tymhorol yr Harbyrau. Mae Robyn wedi setlo'n dda yn ei rôl newydd ac mae'n gyswllt allweddol rhwng defnyddwyr yr Harbyrau a'r Gwasanaeth Harbyrau.

> *'Ers mis Ebrill 2025 rwyf wedi camu i rôl Arweinydd Gwaith Harbwr ar ôl bod yn gweithio fel Cynorthwy-ydd Tymhorol yr Harbyrau yn 2024. Mae'r cyfrifoldebau newydd yn rhoi boddhad mawr ac yn her dda. Y tu allan i'r gwaith rwy'n cadw mewn cyswllt â bywyd yr harbwr drwy'r RNLI, rhwyfo ar y môr a gweithgareddau dŵr yn lleol.'* - Robyn



*Robyn yn Swyddfa Harbwr Ceinewydd.*

Mae'r Gwasanaeth Harbyrau hefyd wedi cymryd ymlaen dau Gynorthwy-ydd Tymhorol newydd i'r Harbyrau. Ymunodd Eve Rees â'r tîm ym mis Ebrill ac mae wedi mwynhau yn fawr ei thymor cyntaf gyda'r Gwasanaeth Harbyrau. Mae Eve yn gobeithio dychwelyd atom fis Ebrill nesaf.

> *'Mae gweithio fel Cynorthwyydd Tymhorol yr Harbyrau o fis Ebrill i fis Medi wedi bod yn brofiad gwych. Mae Harbyrau Ceredigion wedi bod yn*

*amgylchedd cyfeillgar a chroesawgar ac rwyf wedi mwynhau'n fawr ymwneud â defnyddwyr yr harbyrau a'r cyhoedd. Mae'r rôl wedi bod yn brofiad addysgiadol ardderchog ac rwy'n edrych ymlaen at ddychwelyd y tymor nesaf.'* - Eve

Ymunodd Chloe Roberts â'r Gwasanaeth Harbyrau yn nechrau Gorffennaf ac mae hi hefyd wedi mwynhau ei thymor cyntaf yn gweithio ar yr harbyrau. Mae Chloe yn edrych ymlaen at ddychwelyd i'w rôl fis Ebrill nesaf:

*'Ers Gorffennaf rwyf wedi cael cyfle i weithio fel Cynorthwyydd yr Harbyrau ac mae wedi bod yn brofiad hynod fuddiol. Rwyf wedi mwynhau bod allan yn yr awyr agored mewn pob math o dywydd, gan ddysgu bod dillad glaw yn gallu bod yn hanfodol. Rwy wedi bod yn edmygu golygfa gyfnewidiol yr harbwr ac wedi cwrdd â nifer o bobl newydd a diddorol. Mae pob dydd wedi cynnig rhywbeth newydd i'w ddysgu ac rwy wedi gwerthfawrogi bod yn rhan o gymuned gynnes a chroesawgar. Rwyf eisoes yn edrych ymlaen at ddod nôl y flwyddyn nesa — am gyfnod hirach tro nesa.'* - Chloe





*Eve allan ym Mae Ceinewydd (chwith) a Chloe yn Swyddfa Harbwr Ceinewydd (uchod).*

**(2) Gwaith cynnal a chadw sydd wedi'i wneud ac sydd ar y gweill**

Gwnaed gwaith carthu i gynnal a chadw yng Ngheinewydd nôl ym mis Mawrth gan ganolbwyntio ar ben y pier a Phenpolion.

Mae cynlluniau ar y gweill i atgyweirio a chynnal pwyntiau angori yn Harbwr Ceinewydd gyda'r gwaith wedi'i drefnu ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

Cyn codi cychod ar ôl Tymor yr Haf, cafodd boncyffion a mân-bethau eu clirio o Harbwr Aberaeron.

Cwblhawyd gwaith cynnal a chadw arferol ar Farciau Mordwyo *(Aids to Navigation)* yn Aberystwyth a Cheinewydd. Mae gwaith pellach wedi'i gynllunio ar gyfer cynnal a chadw Marc Cardinal Gogledd Carreg Ina yng Ngheinewydd, yn ogystal â gosod goleuadau arwain newydd yn Aberystwyth.


Gwnaed gwaith atgyweirio i'r gored yn Harbwr Aberystwyth er mwyn ailosod y cerrig mawr a oedd wedi symud.

Ar ôl derbyn yr adroddiad cyflwr yn dilyn arolygiad o'r Pontŵn yn Aberystwyth, mae arfarniad opsiynau yn cael ei gynnal ar hyn o bryd i benderfynu ar y ffordd fwyaf priodol o weithredu.  Rhoddir diweddariad unwaith y bydd rhagor o fanylion ar gael.



*Chwith: Carthu'r tywod yng Ngheinewydd*

*Isod (chwith a dde): Cymhorthion mordwyo wedi'u paentio wrth Harbwr Aberystwyth.*







*Chwith: Cymorth mordwyo wedi’i baentio wrth Harbwr Aberystwyth.*

### (3) Storio Dingis – Ceinewydd

Mae'r Gwasanaeth Harbyrau wedi gweithio'n agos gyda Chlwb Hwylio Ceinewydd i ddatblygu man storio newydd ar gyfer dingis ar Draeth Ceinewydd. Mae'r cyfleuster, sydd wedi'i drwyddedu i'r Clwb Hwylio ac yn cael ei reoli ganddo, wedi bod yn ychwanegiad poblogaidd i'r harbwr yn ôl yr adborth rydym wedi ei gael.

I ymholi ynglŷn â storio dingis yn Harbwr Ceinewydd, cysylltwch â:

[Cysylltu â ni | Clwb Hwylio Cei Newydd]



*Uchod: Y man storio dingis yn Harbwr Ceinewydd.*

### (4) Cyfarfodydd Ymgynghorol Defnyddwyr yr Harbyrau

Bydd cyfarfodydd nesaf Pwyllgor Ymgynghorol Defnyddwyr yr Harbyrau yn cael eu cynnal ar 30 Hydref 2025 yn rhithiol dros Teams ar yr amserau canlynol:

17:30 Aberaeron

18:15 Ceinewydd

19:00 Aberystwyth

Er bod y Pwyllgor yn rhoi'r cyfle i drafod materion, mae llawer o ffyrdd y gall rhanddeiliaid gysylltu â'r Gwasanaeth Harbyrau drwy gydol y flwyddyn ynghylch materion o ddydd i ddydd. Mae hyn yn cynnwys trafod wyneb yn wyneb wrth yr Harbyrau neu drwy Clic, sef canolfan gyswllt y Cyngor: clic@ceredigion.gov.uk / 01545 570881. Rydym yn annog rhanddeiliad i gysylltu fel y gallwn ddatrys materion yn brydlon.

### (5) Swyddfa Harbwr Aberystwyth

Rydym yn falch o rannu bod caban newydd Swyddfa Harbwr Aberystwyth bellach wedi'i osod.

Mae hon yn garreg filltir bwysig yn y prosiect o gael swyddfa newydd, ac rydym bellach yn gweithio gyda chydweithwyr yn yr adran Eiddo a chontractwyr i gysylltu cyfleustodau a gwneud gosodiadau y tu mewn. Unwaith y bydd y camau olaf hyn wedi'u cwblhau bydd y Tîm Gwasanaethau Harbyrau yn dechrau gweithredu o'r ganolfan newydd.

Yn y cyfamser, mae'r Tîm Gwasanaethau Harbyrau yn parhau i gynnal presenoldeb rheolaidd yn yr harbwr a dal ar gael drwy'r dulliau cysylltu arferol ar gyfer unrhyw gymorth neu ymholiadau.

Rydym yn gwerthfawrogi eich amynedd a'ch cefnogaeth barhaus yn ystod y cyfnod pontio hwn ac edrychwn ymlaen at eich croesawu i'r swyddfa newydd yn fuan. Rhoddir diweddariad pellach unwaith y bydd y swyddfa newydd ar waith.





*Uchod: Swyddfa Harbwr Newydd yn Aberystwyth*

### (6) Cynllun Amddiffyn Arfordir Aberaeron

Mae Cynllun Amddiffyn Arfordir Aberaeron wedi cael ei gyflawni ac mae modd i'r cyhoedd fynd i bob man erbyn hyn. Cafodd cylchlythyr ei gyhoeddi gan y contractwr ym mis Awst 2025. Mae Awdurdod yr Harbwr wedi bod yn ymwneud â'r cynllun a Trinity House ynglŷn â'r cymhorthion terfynol i forwyr wrth geg yr Harbwr ac mae'r rhain wedi'u gosod.

### (7) Iechyd a Diogelwch

Neges atgoffa – defnyddio VHF

Hoffai'r Gwasanaeth Harbyrau atgoffa holl ddefnyddwyr yr harbwr mor bwysig yw radio VHF a'i fod yn cael ei ddefnyddio'n gywir. Caiff pob defnyddiwr yr Harbwr ei annog yn gryf i gael Tystysgrif Amrediad Byr *(Short-Range Certificate)* ac i weithredu dyfeisiau VHF yn gyfrifol, gydag *etiquette* priodol ac yn unol â'r rheolau.

Mae VHF fel rhaff achub – offeryn hanfodol a ddefnyddir gan forwyr, gwasanaethau brys, a defnyddwyr hamdden ar gyfer cyfathrebu'n gyffredinol ac mewn argyfwng. Mae'n chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau diogelwch ar y môr ac o fewn yr harbwr. Mae'n hanfodol bod defnyddwyr yr harbyrau yn deall sut a phryd i ddefnyddio VHF – yn enwedig mewn sefyllfaoedd brys.

Yn anffodus, bu sawl achos o ddefnyddio VHF yn amhriodol yn yr harbwr, gan gynnwys defnyddio iaith anweddus ar rai sianeli. Mae ymddygiad o'r fath yn annerbyniol a bydd yn cael ei drin yn unol ag Adran 23.1 o Bolisi Rheoli Harbyrau Ceredigion: Ymddygiad Difrifol. Bydd achosion o gamddefnyddio hefyd yn cael eu hadrodd i Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau (MCA).

Cofiwch fod defnyddio iaith sarhaus neu amhriodol ar radio VHF nid yn unig yn amhroffesiynol – gall hefyd fod yn anghyfreithlon o dan Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006 a rheoliadau eraill ynghylch cyfathrebu morwrol. Rhaid i bob neges a drosglwyddir fod yn eglur, yn berthnasol ac yn barchus.

Dewch i ni weithio gyda'n gilydd i gynnal amgylchedd diogel a pharchus ar y dŵr.

Neges atgoffa – Atal Gwrthdrawiadau

Mae gan ddefnyddwyr yr harbwr gyfrifoldeb cyfreithiol i ddeall a chydymffurfio â Rheoliadau Llongau Masnach (Arwyddion Cyfyngder ac Atal Gwrthdrawiadau) 1996.

Er bod y rhain yn cael eu parchu yn gyffredinol, mae'r Gwasanaeth Harbyrau wedi sylwi ar adegau pan na chafodd y rheoliadau hyn eu dilyn, yn enwedig:

> Rheol 34 (a) - tri chaniad byr i olygu "Rwy'n gyrru cwch o'r tu cefn".

Nid yw rhai morwyr masnachol sy'n defnyddio'r prif bier yng Ngheinewydd yn defnyddio'r signalau hyn bob amser wrth ddod o'r tu ôl, gan gyrraedd heb fod defnyddwyr yr harbwr yn ymwybodol. Bydd Gwasanaeth yr Harbwr yn cadw golwg fanylach ar y gweithgarwch wrth y Pier er mwyn sicrhau bod y rheolau'n cael eu dilyn y tymor nesaf.

### (8) Côd Diogelwch mewn Porthladd (PMSC)

Ym mis Ebrill 2025 gwnaeth Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau (MCA) a'r Adran Drafnidiaeth (DfT) gyhoeddi rhifyn diweddaraf y Côd Diogelwch mewn Porthladd *(Port Marine Safety Code).*

Ers hynny, mae'r Gwasanaeth Harbyrau wedi bod yn datblygu Cynllun Diogelwch ar y Môr newydd gan ddiweddaru ei System Rheoli Diogelwch ar y Môr ac adolygu ei ymrwymiadau a'i weithdrefnau archwilio i sicrhau ei fod yn cydymffurfio’n llawn â'r Côd. Mae'r Cyngor yn gweithio tuag at gadarnhau cydymffurfiaeth ym mis Ionawr 2026, fel rhan o'r gwaith ledled y wlad o gydymffurfio â’r Côd Diogelwch mewn Porthladd a gydlynir gan yr MCA.

### (9) Cymhorthfeydd yr Harbyrau

Mae cyfarfodydd cymorth wedi’u trefnu i bob Harbwr er mwyn i ddefnyddwyr yr harbyrau drafod gyda Rheolwr yr Harbwr (neu Arweinydd Gwaith yr Harbyrau yn ei absenoldeb) unrhyw broblemau neu faterion sy’n codi a hynny wyneb yn wyneb.

Bydd y cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn swyddfa harbwr pob lleoliad fel a ganlyn, heblaw am fis Hydref a mis Mawrth:

Aberystwyth – dydd Mawrth olaf pob mis am 14:00

Aberaeron – dydd Mercher olaf pob mis am 14:00

Ceinewydd – dydd Iau olaf pob mis am 14:00

Os bydd newidiadau i'r amserlen hon, rhoddir gwybod i ddefnyddwyr yr harbyrau.

### (10) Cysylltu a rhoi Adborth

Sylwer: Nid yw'r blwch post gwasanaethau technegol yn cael ei ddefnyddio mwyach ac nid yw'n cael ei fonitro.

Os hoffech gysylltu â'r Gwasanaeth Harbyrau, gallwch wneud hynny drwy:

E-bost: clic@ceredigion.gov.uk
Ffôn: 01545 570 881
Post: Cyngor Sir Ceredigion
Canolfan Rheidol
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3UE

Rydym bob amser yn croesawu ac yn annog adborth adeiladol oddi wrth randdeiliaid ac edrychwn ymlaen at glywed wrthych.

**Gyda diolch,**

**Y Tîm Harbyrau**

*Owen Morgan AFNI, Rheolwr yr Harbyrau*

*Robyn Beresford, Arweinydd Gwaith yr Harbyrau*

*Eve Rees, Cynorthwy-ydd Tymhorol yr Harbyrau*

*Chloe Roberts, Cynorthwy-ydd Tymhorol yr Harbyrau*

# Harbwr Diogel 9

# Calm Waters 9




www.ceredigion.gov.uk

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Caru·Love
Ceredigion